# Y Ddolen

Papur

Bancyfelin, Cana, Elim, Heol Awst a'r Priordy

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin



**Myfi yw'r winwydden; chwi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim.**

**Ioan 15:5**

## Rhifyn 2
## PAPUR MAI 2026

# Gair gan ein Gweinidog

## Artemis 2

*MAE’N* siŵr gen i bod nifer fawr ohonom wedi bod yn dilyn taith y gofodwyr yn y llong ofod Artemis 2 dros benwythnos y Pasg - y daith gyntaf i’r lleuad ers dros 50 mlynedd sydd wedi mynd â’r criw yn ddyfnach i'r gofod nag unrhyw daith o'r blaen. Ac rydyn ni i gyd wedi gweld delweddau rhyfeddol o’r byd a’r lleuad o’r llong ofod.

Mae’n arfer gan ofodwyr i gario un peth personol gyda nhw ar bob taith. Ymhlith y pethau personol a ddewisodd y gofodwyr i fynd gyda nhw ar y daith hon y mae llyfr nodiadau gan un, mwclus siâp y lleuad gan un arall, nodiadau wedi’u ’sgrifennu gan y teulu gan y trydydd a Beibl gan y pedwerydd. Ond mae’r dewis wedi bod yn ddiddorol ac amrywiol dros y blynyddoedd, er enghraifft aeth un â gitar i’r gofod, un arall glwb golff - 6 haearn - a dwy bêl, i enwi ond ambell beth.

A rhaid cofio hefyd fod gonc Mistar Urdd ar daith i'r gofod ym 1998 gyda Dafydd Rhys Williams, gofodwr o Ganada o dras Gymreig, wrth iddo deithio i'r Orsaf Ofod Ryngwladol.

Pan oedd Buzz Aldrin yn rhan o’r daith lwyddiannus i’r lleuad ei ddewis e oedd mynd â bara a gwin gydag e. Ie, elfennau’r Cymundeb. Aeth â phecyn plastig bach yn cynnwys bara a ffiol fach o win, ynghyd â chwpan Cymun a ddarparwyd gan ei eglwys. Ar 20 Gorffennaf 1969, yn fuan ar ôl glanio ar y Lleuad, cynhaliodd Buzz Aldrin y seremoni grefyddol gyntaf yn y gofod drwy gymryd Cymun yn breifat. Yn flaenor yn Eglwys Bresbyteraidd Webster, aeth Aldrin â bara a gwin gydag e i‘w cymryd i fynegi diolchgarwch ac i nodi’r gamp hanesyddol fel eiliad o arwyddocâd dwyfol. Darllenodd Aldrin o Ioan 15:5 “Myfi yw’r winwydden; chwi yw’r canghennau” a chymryd y Cymun.



Ar gais NASA i osgoi dadlau crefyddol posibl ni rannodd Aldrin y gwasanaeth yn gyhoeddus, ond gofynnodd am ychydig funudau o dawelwch. Digwyddodd y Cymun yn ystod awr o seibiant a drefnwyd cyn iddo gerdded ar y Lleuad.

Ie, mynd â rhywbeth personol ar y daith - ac mae'r pethau personol yn amrywio o berson i berson.

Pe baech chi neu fi'n mynd ar daith i'r gofod, beth fydden ni'n ei ddewis fel eitem personol tybed?

***YMHLITH*** yr holl bethau sy'n eiddo i ni, tybed beth yw'r un peth pwysig?

**Gweddi**

Dduw Dad, Creawdwr pob peth,
rhyfeddwn wrth syllu ar Dy greadigaeth.



Yn nirgelwch tawel y bydysawd,
atgoffa ni ein bod yn cael ein hadnabod, ein caru, ac nad ydym wedi'n hanghofio.

Gwna ni mor ffyddlon a chyson yn ein hymlyniad i Ti â'r sêr a osodaist yn yr awyr.

**Amen**

## DARLLENIADUR

| Mis Mai | Darlleniad |
|---|---|
| **Wythnos 1** | **Actau 7: 55-60** |
| **Wythnos 2** | **Actau 1: 1-11** |
| **Wythnos 3** | **Actau 1: 6-14** |
| **Wythnos 4 Sulgwyn / Pentecost** | **Actau 2: 1-21** |
| **Wythnos 5** | **Mathew 28: 16-20** |

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**RHIAN EVANS**
**CAPEL BANCYFELIN**
**CAPEL CANA**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

**YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES (TRYSORYDD)**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:**

**'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds**
**30-91-68**
**Acc no: 00229403**

**neu ei osod mewn amlen a'i ddychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei roi yn y blwch casglu.**

# BORE COFFI

**i godi arian tuag at**
**Papur Misol**
**Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin**

**DYDD MERCHER, 6 MAI 2026**
**10.00 - 12.00**
**FESTRI CAPEL HEOL AWST**
**Paned, Stondinau a Raffl**





# Y Tudalen Blaen



**Myfi yw'r winwydden; chwi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim.**

**Ioan 15:5**

Caiff mis Mai ei ystyried yn aml iawn fel mis o dwf. Mae'r blodau'n blodeuo, y coed yn ffynnu, a phopeth o'n cwmpas fel pe bai'n dod yn fyw. Mae twf hefyd yn hollbwysig yn ein taith ysbrydol. Mae Duw yn ein gwahodd i newid yn barhaus, esblygu, a thrawsnewid o fewn Ei gariad. Yn union fel y mae angen plannu hedyn a'i feithrin yn ofalus, mae ein ffydd yn gofyn am yr un gofal. Beth am groesawu'r mis hwn fel cyfle i adnewyddu ein hunain yng Nghrist? Gyda'n gilydd, gallwn geisio twf yn ein calonnau ac annog ein gilydd ar y daith hyfryd hon.



***Ond cynyddwch mewn gras, ac mewn gwybodaeth o'n Harglwydd a'n Gwaredwr, Iesu Grist. Iddo ef y bo'r gogoniant yn awr ac am byth! Amen.***

***2 Pedr 3:18***

## PRYNHAWN GWENER Y GROGLITH

Er gwaetha'r tywydd garw, mentrodd criw ffyddlon i ben Bryn Myrddin ar gyfer Pererindod y Groglith. Cariwyd croes i fyny'r bryn a bu'n ffocws i'r addoliad awyr agored am dri o'r gloch. Wedi dychwelyd roedd pawb ohonom yn gwerthfawrogi'n fawr y baned a'r gacen a baratowyd ar ein cyfer gan Sharon Richards a'r teulu yn Alltyfyrddin, a hyfryd oedd gweld nifer o aelodau wedi dod i ymuno â ni ar gyfer y te. Codwyd £210 i elusen Alshimers er cof am y diweddar Gerwyn Griffiths, tad Sharon, a fu yn ein plith y llynedd ond a fu farw ychydig amser yn ôl. Diolch i bawb am bob cefnogaeth i'r dydd.











# CYNGERDD

## Côr Tonic

*yng nghwmni*

*Owain Rowlands, Llandeilo (Tenor)*
*a*
*Chôr Meibion Dwyfor*

*am*
*7yh nos Sadwrn, Mai 23 ain*
*yng Nghapel Y Priordy*


*Tocyn £15 (yn cynnwys raffl)*
*Plant ysgol am ddim*

*Elw tuag at Uned Gemotherapi Glangwili*

## SUL Y PASG YN YR OFALAETH

**Yn y bore**

Sbardunwyd myfyrdod ein Gweinidog gan ddarlun o waith yr arlunydd o'r Swistir, Eugene Burnand (1850-1921) sy'n dwyn y teitl 'Y Disgyblion Pedr a Ioan yn rhedeg at y Beddrod ar Fore'r Atgyfodiad.' Mae'r paentiad yn darlunio'r eiliad pan mae Pedr a Ioan, gan ddilyn cyfarwyddiadau Mair Magdalen, yn rhedeg at feddrod gwag Iesu. Mae'n dal pryder dwfn a disgwyliad y disgyblion wrth iddynt agosáu at y beddrod, gan adlewyrchu'r emosiynau o dristwch dwfn a gobaith ar eu hwynebau. Arweiniodd hyn at ein Gweinidog yn ein hannog ninnau heddiw i redeg a chofleidio Iesu, gan wneud hynny'n gwbl hyderus a llawn gobaith o wybod ei fod eto'n fyw.



Roedd llawr Capel y Priordy'n gyfforddus lawn i glywed y neges hon ar fore'r Trydydd Dydd.  Hyfryd oedd croesawu aelodau pum eglwys yr Ofalaeth ynghyd â chyfeillion eraill i gydaddoli ar fore mor gyffrous ac arbennig.

Llywiwyd yr oedfa gan aelodau'r Ofalaeth. Darllenwyd Salm 98 gan Nia Evans (Elim) a chafwyd darlleniad o Efengyl Ioan gan Nia Lewis (Y Priordy).  Roedd y gweddïau yng ngofal Marlene Jones (Cana), Trefina Jones (Bancyfelin) a Nigel George (Heol Awst).

Cafwyd ymweliad gan Islwyn yr Asyn ac yntau yn ei ffordd ddihafaol ei hun, gyda chymorth Beti-Wyn, yn denu sylw'r plant a'r oedolion fel ei gilydd wrth esbonio i ni arwyddocâd y Groes sydd ar gefn pob asyn.  Cafodd y plant hefyd ddigon o dasgau diddorol yn ymwneud â'r Pasg i'w diddanu a'u cadw'n brysur.

Dewiswyd emynau pwrpasol i'w canu ar Ddydd yr Atgyfodiad i gyfeiliant Heather Williams (Priordy) wrth yr organ. Elinor Wyn Reynolds oedd y cyhoeddwr a diolch i Ifan a Brynmor, aelodau yn Ysgol Sul y Priordy, am helpu gyda'r casglu. Manteisiwyd ar gyfleusterau technolegol y capel i bwrpas. Clywsom ar ffilm fer Eurig Salisbury yn adrodd cerdd ei hunan sy'n cwmpasu un o brif ddigwyddiadau'r Pasg, sef yr Atgyfodiad. Mae'n diolch yn fawr i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am y gyfres Pump y Pasg sy'n dod â rhyw ffresni i'n haddoli ar adeg mor bwysig yn hanes yr eglwys. Yna cawsom fwynhau cerddoriaeth dros y sgrîn, sef  'Cymun' gan

Siân James, i'n paratoi ar gyfer Swper yr Arglwydd. Roedd y Cymun yng ngofal ein



Gweinidog a chafodd gymorth Alison Evans (Elim), Edward Jones (Cana), Trefina Jones (Bancyfelin) a Hywel Evans (Heol Awst) gyda'r elfennau.

Yn hufen ar y deisen ar ddiwedd oedfa hynod o fendithiol derbyniodd pob un ohonom wy Pasg bach blasus iawn. Diolch i'n Gweinidog am y rhodd hon ac am baratoi mor drwyadl ar ein cyfer unwaith eto.

**Yn y prynhawn**

Roedd yr haul yn gwenu'n braf dros Bancyfelin wrth i griw niferus iawn ddod ynghyd ar b'nawn Sul y Pasg i gychwyn yr orymdaith drwy'r pentref. Arweiniwyd mewn gweddi gan Beti -Wyn cyn cychwyn y daith a chanwyd emyn cyn ymlwybro'n araf bach drwy'r pentref y tu ôl i'r Groes a gariwyd gan Delme Thomas. Canwyd emyn hefyd y tu fas i'r ysgol ac ar sgwâr y pentref cyn i bawb wneud eu ffordd i'r capel.

Roedd y capel wedi'i adduro'n arbennig gan Nia Ward, a'r blodau a'r Groes yn wledd i'r llygad. Roedd yr oedfa yng ngofal aelodau Bancyfelin. Cyhoeddwyd yr emynau gan




Meinir Walters, Moyra Howells, Trefina Jones ac Eirian Thomas. Darllenwyd hanes atgyfodiad Iesu gan Angharad James, ac yn ei darlleniad hithau holodd Julie Sear 'Beth yw'r Pasg?'. Tra bo'r Ŵyl yn ddim ond wyau a siocled i rhai, i Gristnogion mae'r Pasg yn gyfystyr â buddugoliaeth a chnoncwest.



Gwrandawyd ar ddwy gerdd dros y sgrîn gan un o blant Capel Bancyfelin, sef Eurig Salisbury a baraotwyd yn arbennig gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Joanne Richards fu'n ein harwain mewn gweddi a Gwyneth Griffiths oedd wrth yr organ.

Wedi i Beti -Wyn fynegi'r diolchiadau a chyhoeddi'r Fendith mwynhawyd paned a byns y Grog. Diolch i Ann Jones a'r merched am baratoi'r baned ac i Trefina Jones ac Eirian Thomas a baratoi byns y Grog a'u cyflwyno'n rhodd. Do, bu'n brynhawn hyfryd. Dioch i bawb a gyfrannodd at ei lwyddiant.

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

# SUL Y PASG YN YR OFALAETH















# Podlediad Yr Ofalaeth

Gwrandewch arno ni ar:

**Spotify:**

https://open.spotify.com/show/6NM0ieGztlimmraEMzw9xC

**ApplePodcasts:**

https://podcasts.apple.com/us/podcast/oedfaoedd-beti-wyn/id1612830856?uo=4

**Spreaker:**

https://www.spreaker.com/show/oedfa-gan-beti-wyn-1
iHeartRadio: https://iheart.com/podcast/93688407

**Deezer:**

https://www.deezer.com/show/347206

Yn cynnwys holl oedfaon digidol,
Papur yr Ofalaeth a chyfweliadau

---

**Y Samariaid yng Nghymru: Ffoniwch 116 123**
**Tir Dewi: Ffoniwch 0800 121 4722**
**Anxiety UK: Ffoniwch 03444 775774**
**CALM: Ffoniwch0800 585858**
**Mind: Ffoniwch 0300 123 3393**
**No Panic: Ffoniwch 0844 967 4848**
**Bereavement: Ffoniwch 0800 068 4141**
**Abuse: Ffoniwch 0808 2000 5000**
**Refuge:Ffoniwch 0808 200 0247**
**DPJ, Rhannwch Y Baich – 0800 587 4262**
**neu'r linell neges destun – 07860 048 799**

# WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL
## *10-16 Mai 2026*

**Mae Wythnos Cymorth Cristnogol yn ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal yn flynyddol ar draws y Deyrnas Unedig (DU), gan elusen Cymorth Cristnogol i godi arian**

**Mae Cymorth Cristnogol yn elusen sy'n ariannu projectau yn rhai o wledydd tlotaf y byd. Mae'n helpu pobl i wella eu bywydau eu hunain ac i fynd i'r afael ag achosion tlodi ac anghyfiawnder. Cafodd ei sefydlu yn 1945 gan eglwysi yn y DU ac Iwerddon. Mae'n elusen Gristnogol, ond yn ariannu projectau sy'n helpu pobl waeth beth fo eu credoau. Mae'n gweithio gyda sefydliadau o bob ffydd a rhai sydd heb ffydd. Mae rhywfaint o'r gwaith y mae'n ei ariannu yn cael ei wneud drwy gyfrwng sefydliadau Cristnogol lleol, ond mae bob amser er budd cymunedau cyfan.**




**Bydd ffocws yr wythnos eleni ar gymunedau yn Cenia ble mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn cefnogi cymunedau bregus mewn dinasoedd i ddechrau tyfu bwyd maethlon ar gyfer y teulu. Mae 'Beacon of Hope' yn dysgu pobl i ffermio yn y ddinas, gwneud gwrtaith organig ac arbed dŵr. Mae'n cefnogi dechrau busnesau bach drwy werthu cynnyrch yn y farchnad leol er mwyn prynu hanfodion eraill i'r teulu.**

cymorth cristnogol

Urddas, Cydraddoldeb, Cyfiawnder, Cariad

***GALLWCH DDEFNYDDIO’R AMLEN SYDD YN Y DDOLEN Y MIS HWN OS YDYCH YN DYMUNO RHOI RHODD I GYMORTH CRISTNOGOL.***



**Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru yw Llinos Roberts**

**caid.org.uk | 01248 719124 | 07778 109460**

**lroberts@christian-aid.org**

**THEATR CYMRU**


**yn cyflwyno**

**DOSBARTH MISS PRYDDERCH A LLEIDR Y LLEISIAU**




*Sioe gerdd hudolus newydd gan Mererid Hopwood, gyda cherddoriaeth gan Seiriol Davies*

**Theatr y Lyric**
**Dydd Sadwrn 6 Mehefin 2026**
**Pefformiad Teulu: 13.00 ac am 1800**
**Tocynnau: ☎0345 2263510**




**CENHADAETH Y CYMRY**
**D Ben Rees**

**Cyhoeddiadau’r Gair**
**Ebrill 2026**
**£13.99**

***Cip ar hanes Cenhadon o Gymru a aeth i bedwar ban byd***

**Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2026**

**19 Mai 2026**

**Eleni mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd yn canolbwyntio ar ieithoedd lleiafrifol.**

**Pwrpas y Neges yw addysgu pobl ar draws y byd am yr ieithoedd hyn a'u hannog i'w gwerthfawrogi, eu dysgu a'u defnyddio. Mae'r Neges yn agor trafodaeth ehangach am rôl iaith mewn empathi, cydraddoldeb a dealltwriaeth o'r byd o'n cwmpas.**

**Gyda dros 7,000 o ieithoedd ledled y byd, ac arbenigwyr yn rhagweld y bydd hanner ohonynt wedi diflannu erbyn diwedd y ganrif, mae'r Neges yn datgan yn glir yr angen i ni ddiogelu ieithoedd lleiafrifol cyn iddynt ddiflannu am byth.**


**Cafodd cynnwys a thrywydd neges eleni ei benderfynu gan fyfyrwyr Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria, Ysgol Morgan Llwyd ac Aelodau'r Urdd. Cynhaliwyd gweithdy ym Mhrifysgol Wrecsam ddiwedd Ionawr, ac yn dilyn y gweithdy aeth y bardd Marged Tudur ati i greu geiriau'r Neges, gyda Sioned Evans (Smei) yn creu animeiddiad o'r geiriau.**

**Mae geiriau'r neges ar gael mewn sawl iaith, ac mae pecyn addysg gan Dr Ianto Gruffydd ar gael ar Wefan yr Urdd.**

**Am ragor o wybodaeth neu i gefnogi'r ymgyrch, cysyllter â**

**Heddwch@urdd.org**

**.**


NEGES
HEDDWCH
AC
EWYLLYS DA
2026
19.05.2026
Urdd
IEITHOEDD
LLEIAFRIFOL
Mae heddwch yn siarad pob iaith
'Pam trafferthu',
'Waeth ti heb',
'Beth yw'r ots.'
Pam trafferthu?
Gan mai hon yw iaith pen draw'r cof,
iaith fy Mabinogi, iaith sy'n rhan ohonom ni,
iaith sy'n rhoi ystyr i bob darn o dir,
iaith sy'n orffennol, presennol a dyfodol.
Waeth mi heb?
Ond dyma iaith cymuned, iaith perthyn, iaith balchder,
iaith crio chwerthin, iaith rantio,
iaith synnwyr a malu awyr,
iaith 'ti ddim ar ben dy hun'.
Beth yw'r ots?
Mae ots am iaith
sy'n lliwio ymennydd a llenwi enaid,
sy'n dychmygu'n ehangach, yn garedicach,
sy'n dymchwel waliau, sy'n fyd o bosibiliadau.
Oes, mae ots am iaith
sy'n lond gwlad o obaith.

**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**
**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

## CAPEL RAME HEAD, CERNYW



**Penrhyn trawiadol wedi'i leoli ar arfordir de-ddwyrain Cernyw yw Rame Head.**

**Mae'r capel yn dyddio'n ôl i'r 14eg ganrif ac wedi'i gysegru i Sant Mihangel, nawddsant morwyr a physgotwyr.**

**Roedd y safle'n gell meudwy Geltaidd Gristnogol gynnar. Fe'i dewiswyd gan fynachod am ei leoliad anghysbell a'i olygfeydd panoramig o'r môr a'r tir.**

**Gorffennwyd ei ddefnyddio fel man addoli yn gynnar yn yr 20fed ganrif.**

**Mae'r capel ar agor i'r cyhoedd ond gwell ymweld ag e yn ystod y dydd oherwydd diffyg goleuadau artiffisial.**






EISIAU GWYBOD MWY AM GYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN?

**Trowch at: cyfundeb.com**

# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'U' neu 'W'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | Uchaf llys, llys --- |
| | |
| 2 | Un celwydd yn fam i --- |
| | |
| 3 | Un cyffylog ni wna --- |
| | |
| 4 | Un peth yw addo, peth arall yw --- |
| | |
| 5 | Un wennol; ni wna ---- |
| | |
| 6 | Unwaith yn ddyn, dwywaith yn --- |
| | |
| 7 | Uwch pen na dwy --- |
| | |
| 8 | Wedi yfed syched --- |
| | |
| 9 | Wyneb llawen, llawn ei --- |
| | |
| 10 | Wyneb prudd, drwg a --- |

Atebion ar Dudalen 39

**Pleser gan aelodau Capel Heol Awst oedd cyflwyno siec o £1,000 yr un i Adran Gerdd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnon-ddrain yn dilyn y gyngerdd ddiweddar i ddathlu 300 mlwyddiant Capel Heol Awst. Pob lwc i bawb yn Eisteddfod yr Urdd Sir Fon.**






# Ifanc@Gofalaeth




Roedd yn Ŵyl y Pentecost ac roedd y disgyblion gyda'i gilydd. Yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn fel gwynt yn chwythu trwy'r ystafell. Wrth i'r gwynt chwythu ymddangosodd fflamau bach o dân ar ben pob un o'r disgyblion. Llanwyd pawb ohonynt gyda'r Ysbryd Glân.

Dechreuodd pob un ohonynt siarad mewn ieithoedd gwahanol ar draws ei gilydd. Roedd yna lawer o ymwelwyr o bell ac agos yn Jerwsalem hefyd y diwrnod hwnnw. Roedden nhw'n clywed y disgyblion yn siarad. "Beth sydd yn digwydd? Mae rhywun yn siarad am y pethau gwych mae Duw wedi eu gwneud yn fy iaith i," ebychodd un ohonynt. "A finnau," meddai un arall mewn syndod. Doedden nhw ddim yn deall beth oedd yn digwydd.



Pob lwc i bawb a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd

# Chwilotair Y Pentecost

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y | I | P | Y | S | B | R | Y | D | G | L | A | N | J |
| E | G | E | D | S | R | E | F | T | A | L | I | E | E |
| D | W | N | Y | I | B | R | H | W | N | N | R | E | C |
| I | Y | T | I | M | L | I | W | E | L | W | O | W | I |
| I | N | E | E | A | W | L | Y | D | S | I | Y | P | S |
| E | T | C | N | E | I | D | G | A | W | T | D | F | M |
| I | D | O | H | N | O | T | L | E | Y | P | H | T | F |
| T | F | S | U | Y | I | E | H | N | U | T | D | H | N |
| H | S | T | W | G | M | R | R | T | F | N | N | D | A |
| O | E | N | M | S | L | E | S | W | N | R | O | H | T |
| E | A | U | S | I | I | M | F | F | L | A | M | A | U |
| D | A | W | D | D | U | H | T | Y | W | H | C | G | N |
| D | N | G | R | I | D | D | H | T | E | F | U | Y | N |
| M | N | H | L | T | Y | R | C | H | E | I | W | H | I |

JERWSALEM
GWYNT
FFLAMAU
DISGYN
PENTECOST
IEITHOEDD
CHWYTHU
YSBRYDGLAN
IAITH
TAN
SWN

Hwyl fawr tan tro nesaf,

*Beti Wyn*

## CASGLU NWYDDAU AR GYFER APÊL CODA NI

**Bu’r ymateb am ddillad ail-law ar gyfer Apêl mis Ebrill i gefnogi ‘Coda ni’ yn anhygoel! Roedd garej a chyntedd tŷ Beti -Wyn yn llawn dop, felly hefyd y fan a ddaeth i gasglu’r dillad! Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cefnogaeth.**











Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

# Cyfres o chwe sesiwn yn archwilio gwahanol agweddau o fywyd yr eglwys.

**Cyfarfodydd ar nos Fawrth am 7:00**

| | |
|---|---|
| 05/05 | **Gweinyddu Eglwys**<br>Ifan Alun Puw |
| 12/05 | **Cynnal Cyfarfod Eglwys**<br>Parchg Ddr Alun Tudur |
| 19/05 | **Beth yw Diacon?**<br>Parchg Beti-Wyn James |
| 02/06 | **Cynllunio'n Cenhadaeth**<br>Gwilym Jeffs |
| 09/06 | **Gweinyddu'r Sacramentau**<br>Parchg Carwyn Siddall |
| 16/06 | **Timoedd yn arwain yr eglwys**<br>Dan arweiniad aelodau Peniel a Bwlchycorn |

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â carwyn@annibynwyr.cymru

**Eich hwb lleol chi ydi:**

**BETHLEHEM NEWYDD, PWLL-TRAP**

| | |
|---|---|
| | *BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS Y PRIORDY*<br>*Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da* |

# TALWRN Y DAFFODIL 2026




**Cynnyrch Capel y Priordy – Y Tîm Buddugol**



**Cwpled yn cynnwys unrhyw derm coginio.**

Ar lawr, sosban fawr rof i,
naw wfft i *health and safety*.

**Limrig: "Yng Ngemau Olympaidd y gaeaf (neu gaea)"**

Yng Ngemau Olympaidd y gaea'
gafaelodd y cyrling yn Dinah,
    aeth Wil i ôl brwsh
    a sgrwbio mewn rwsh
cyn rhoi pwsh i'w wraig hyd y lolfa!

**Pennill Ymson/Beddargraff Chatbot**

**Pennill ymson *chatbot***

***(Ar adeg wyllt o reiat – gall seibr-sgwrs droi'n seiat.)***



Fe aeth y byd i gyd i bot
Mae pethau ar i wered,
Fe bwdodd sens a hôl ei got,
Mae croen y byd ar bared.
Der draw am sgwrs gall dros y we
'Da rhywun gwell na pherson,
Cei *chat* 'da *bot*, rhoi'r byd i'w le,
Yn wir, down yn gyfeillion.

**Englyn: Ysgol Feithrin**



I'w haelwyd dônt yn deulu, eu siarad
  llawn siario a gwenu
 a chreu taer eu chwarae tŷ
 yn furiau i'w hyfory.

**Cywydd 12 llinell: Undeb Rygbi Cymru**


Y stadiwm fu'n gwm o gôr,
rhegwn ei bod ar agor;
creu rhyw ffroth corfforaethol
o'r man lle bu dyrnau'r *maul*
a thrwco iaith ryciau cas
am idiom Brenin Midas;
troi hanes yn fusnes fawr
a'r ias a drônt yn ddrewsawr.
Ati awn i gau y to,
troi o'r gwatwar i gwato;
ei gau trwy'r dyddiau diddim
fel nad yw Duw'n gweld ei dîm.

**Cân heb fod mwy na 2 funud:**
**Llwgrwobrwyo**



Donald yw'r enw, sa'i am fod yn gas
Ond wi'n dod i 'Steddfod Y Garreg Las.
Newidwch 'renw, rhof driliwn yn lwmp
I Steddfod Frenhinol Genedlaethol Trwmp.
Dydd Llun geith Mererid i roi ar fy mhen
Y Goron, a wedyn gwisg aur – nid un wen,
A'm gwneud yn Archdderwydd – wi'n dipyn o foi,
Fe reda i'r steddfod yn weddol gloi!
Bydd toilet sbeshal i fi fy hun,
A John Cwmbetws a fi yn gytûn,
Ma John yn enwog, nid yw yn beth syn,
Ma fe'n rhedeg popeth, popeth sy'n myn'.
Bydd swsis wedyn a lapswchan mawr
Ym mhabell neis secsi Merched y Wawr.
Pob tasg, pob englyn yn y Babell Len
Yn fy nghanmol i fel heddychwr clên,
A'r Talwrn a'r Meuryn – Twm Morys a'i grancs

Yn rhoi marce llawn i ni Tim yr Iancs!
Bydd ICE yn gofalu fel rhan o'u gwaith –
Cau lawr holl nonsens Cymdeithas yr Iaith,
A Sisneg fydd popeth – rhown Ffred yn ei le,
Os na fydd e'n grondo fe'i dagwn e!
Cap MAGA i bawb i roi ar ei ben
Sef Make Aberteifi yn Great Again.
A bydd LOL ar gael i ni gyd am ddim
Yn llawn o byrcs a nhw gyd yn rhai slim.
Bydd Maes Noethlymod i chi i gael tan
'Ny'r houl, drws nesaf i'r Maes Carafán.
A'r pleser mwyaf yn siŵr fydd i chi -
Ie, cael moes ymgrymu trwy'r dydd i fi.



# GWIBDAITH Y GYMDEITHAS















## Gwibdaith Cymdeithas yr Ofalaeth

***TEITHIODD*** llond bws o aelodau'r Ofalaeth a'u cyfeillion i'r gorllewin fore Mawrth 21 Ebrill a haul y gwanwyn yn gwenu ar bawb. Roedd Robert a staff hynaws Caffi Beca, Efail-wen yn ein disgwyl gyda brecwast hwyr/cinio cynnar blasus ar ein cyfer. Roedd bryniau'r Preseli ar eu gorau wrth i ni syllu drwy ffenestri mawr Caffi Beca ar ei newydd wedd. Cawsom ein hatgoffa gan Beti-Wyn taw ein Gill a Danny Owens ni (P) agorodd Caffi Beca yn 1964 gan ychwanegu at y garej a'r bacws, a buont yn gweithio'n ddiwyd yno tan eu hymddeoliad yn 2002. Braf oedd cael Gill gennym ar y daith a chofion annwyl at Danny. Testun balchder iddynt yw gweld y caffi mor boblogaidd heddwi ag erioed.





Ymlaen â ni i Nanhyfer ble cawsom y fraint o gwrdd â'r hanesydd lleol a'r archeolegwr Hedd Ladd Lewis a gwrando arno'n rhannu ychydig o hanes Eglwys Sant Brychan gyda'i chroes Geltaidd a'i charreg ogam, ei beddau hynafol ynghyd â chwedlau'r ywen waedlyd. Roedd profi tawlewch Nanhyfer ar brynhawn mor fendigedig o wanwyn yn wir yn brofiad dyrchafol.

Rydym bob amser yn teimlo'n ddiogel iawn pan mae Elfed Lewis, ein gyrrwr bws ffyddlon wrth y llyw, ac roedd ei weld yn llywio'r bws drwy lonydd cul a heriol Trefdraeth yn destun rhyfeddod i ni gyd! Ein hymweldiad nesaf oedd â Chanolfan Bethlehem yn Nhrefdraeth – capel gyda'r Bedyddwyr. Gyda'r gynulleidfa wedi lleihau penderfynodd y gweddill ffyddlon addoli mewn Capeli eraill yn yr Ofalaeth a rhoi'r adeilad ar werth. Prynwyd yr adeilad gan y gymuned a'i throi'n ganolfan. Yno i'n croesawu roedd y grefftwraig ddawnus Aeres James - un o ferched yr ardal - a chawsom ein synnu o weld fel y mae'n plethu gwellt i greu'r camweithiau mwyaf rhyfeddol! Hyfryd



oedd dysgu am hanes y ganolfan a chrwydro o amgylch yr arddangosfa.

Taith fer oedd gennym i Blas Llwyngwair ar gyfer te prynhawn godidog.  Cafodd ein gweinidog gyfle i fynegi ein gwerthfawrogiad o waith Olga (HA) a fu'n trefnu'r trip yn drylwyr iawn ar ein cyfer, ac i Joanne Richards (B), Mair Jones (C), Ann Walters (E) a Rhian Jones (P) am gasglu enwau yn y gwahanol gapeli. Cyfarchwyd Beti-Wyn ar gân gan ei bod yn dathlu ei phen-blwydd! Diolchwyd yn arbennig hefyd i Elfed Lewis am ein gyrru'n ddiogel.



***BU'N*** ddiwrnod ardderchog. Cwmni da. Gwybodaeth ddiddorol. Bwyd blasus. Trefniadau arbennig .... a'r haul yn gwenu arnom, a chyfle i weld y cornel bach hwn o Gymru ar ei orau.

CWLWM MONDULI CARMARTHEN-TANZANIA LINK

Rhif Elusen Cofrestredig 327330 / Registered Charity No. 327330



EGLWYS BEDYDDWYR SAESNEG, CAERFYRDDIN
SA31 3AD
DYDD SADWRN  16 Mai 10.30—12.00

**Côr Bois y Felin**
**Côr Babell**

# Bore Coffi

**Caerfyrddin a Gorllewin Cymru'n cefnogi prosiectau bychan cymunedol**

## MWYNHAU YN YR YSGOL SUL!

## Y PRIORDY





## ELIM





**Plant Ysgol Sul Cana yn mwynhau gwneud Cacennau Pasg**





## PANED A SGWRS BANCYFELIN YN Y FOX & HOUNDS

## MIS EBRILL



Capeli Cana a Bancyfelin
yn

**Bowlio Deg**

a Swper yn y Fox & Hounds

Nos Wener,
12 Mehefin am 6 o'r gloch

Mwy o fanylion i ddilyn

Eglwysi Bancyfelin, Cana,
Ffynnonbedr a Gibeon

**Oedfa Bwnc**

**Dydd Sul, 10 Mai
am 1.30 o'r gloch
yn Gibeon**
***Croeso i bawb***

## Y ddiweddar Rhianydd Powell

Gyda thristwch y clywsom am golli un o aelodau Heol Awst, sef Mrs Rhianydd Powell a fu farw yn dawel 23 Mawrth 2026 yn Nhŷ Bryngwyn, Llanelli.



Un o Alltycnap, Tre Ioan oedd Rhiannydd, a bu hithau a'i diweddar ŵr, John Phillips ynghyd â'r pedwar mab yn byw yn Nhre Ioan ac ym Mancyfelin am rai blynyddoedd, hyd nes iddynt ymgartrefu yn Heol Cadifor, Caerfyrddin.

Daeth cwmwl tywyll i daflu ei gysgod dros y teulu bach ym marwolaeth ei phriod ym mlodau ei ddyddiau, a hithau wedi'i gadael i fagu'r pedwar mab ar ei phen ei hun. Roedd yn fam balch iawn o'i phlant ac yn un a wnaeth bopeth iddynt wrth eu magu a'u cefnogi.

Gweithiodd am gyfnod yn Siop Ffrwythau Bob Rees, Stryd y Brenin ac fel Nyrs Gynorthwyol yn Ysbytai Heol Y Prior a Glangwili, ond fe fydd y rhan fwyaf o bobl Caerfyrddin yn ei chofio'n gweithio yn T P Hughes.

Dyma gwrdd â Cyril Powell a phriodi. Dyma uno dau deulu. Treuliodd y ddau flynyddoedd hir a hapus gyda'i gilydd tan ei farwolaeth yn 2019. Rhyngddynt, bendithiwyd hwy â 13 o wyrion a 14 o or-wyrion. Roedd Rhiannydd wrth ei bodd yn eu gweld yn galw a'r teulu oll yn meddwl y byd ohoni. Bu'r teulu'n fawr ei ofal ohoni.

Ergyd pellach iddi oedd colli Huw, ei mab ieuengaf, ond er gwaetha'r siom a'r golled, parhaodd yn gryf a doeth, gan wynebu'r storm hon gyda dewrder mawr.

Bu'n ffyddlon yn yr oedfaon yn Heol Awst ar hyd y blynyddoedd hyd i'w hiechyd dorri, ac i Gapel Heol Awst y daeth tyrfa fawr iawn ar fore Gwener 17 Ebrill i oedfa i ddiolch i Dduw am ei bywyd a'i gwaith. Rhoddwyd ei gweddillion i orwedd ym mynwent y dref. Gwasanaethwyd gan ei Gweinidog.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Byron, Malcom a Meurig a'r cysylltiadau teuluol i gyd, a chariwn Huw yn ein calonnau.

Diolch i Dduw am Rhiannydd ac am y fraint o gael ei hanabod.

**Ein Gweinidog**

EIN cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Betsan James (P), Heulwen Thomas (C), Gareth Dyer (E), Eirlys Jones (P) a Helen Jones (HA). Dymunwn yn dda hefyd i Enid Evans (P) sydd wedi symud i Gartref Gofal Bryn Illtyd, Porth Tywyn. Cofion annwyl atoch i gyd.

Bu'r Parchedig Catrin Ann (P) yn brysur yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon yn trefnu'r cystadlu dros Gymru am y drydedd flwyddyn ar hugain. Da gweld cymaint o lwyddiant yn dod i Gymru, yn enwedig Lleisiau'r Cwm, côr y mae Catrin yn perthyn iddo sy'n dathlu'i ben-blwydd yn 30 oed eleni.

Llongyfarchiadau mawr i Jeff Thomas (HA) ar yr anrhydedd arbennig sydd wedi dod i'w ran. Ar ddiwrnod gwobrwyo Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin yn ddiweddar ailenwyd canolfan y clwb yn Ganolfan Jeff Thomas. Gwnaethpwyd hynny er clod i Jeff am ei ymdrechion a'i ymroddiad dros y clwb am flynyddoedd lawer. Rheolwr newydd Tîm y Dynion yw Rhodri Thomas, mab Jeff ac Eirlys, a dymunwn bob llwyddiant iddo yntau yn y swydd hon y tymor nesaf.

Mae'n siŵr bod nifer ohonom wedi bod yn dilyn hynt Mari Grug a'i ffrindiau a fu'n cymryd rhan yn y She Ultra dros Ymchwil Canser Cymru drwy gerdded y daith 50km o'r traeth yn Abersoch i ganol Pwlhelli yn Mhen Llŷn. Ymysg y ffrindiau hynny roedd Dr Llinos (P). Mae Mari hefyd yn edrych ymlaen at gyfres newydd o'i phodlediad ac mae Llinos yn un o'r rhai a fydd yn sgwrsio â hi.

Llongyfarchiadau i Margaret (B) a Byron Evans ar ddathlu'u priodas aur yn ddiweddar. Hefyd i Jayne a Delme Davies (B) a fydd yn dathlu'u priodas aur y mis hwn.

Ein dymuniadau gorau i Ernest Jones (HA) sy'n dathlu pen-blwydd arbennig (ffigwr crwn) ar 3 Mai oddi wrthym i gyd.

Llongyfarchiadau i Elin Wyn (Eglwys Gymraeg Canol Llundain a'r P gynt) ar gyflawni Hanner Marathon Llundain yn ddiweddar a chodi arian i helpu Sefydliad Thyroid Prydain sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda chyflyrau thyroid.

Ar Sul y Pasg Bach 2002, sef 24 mlynedd yn ôl, y dechreuodd Beti-Wyn ar ei gweinidogaeth yn y Priordy yng Nghaerfyrddin a Chana a Bancyfelin. Bellach,

**mae Gofalaeth ein Gweinidog wedi ymestyn i gynnwys Elim a Heol Awst a dymunwn yn dda iddi yn ei holl orchwylion.**

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mehefin i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r canlynol sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

**Katie Evans (B) ar farwolaeth ei mam-gu Hanna Moira Davies, Brynteg, Llanybydder.**

**Philip Jones (P) ar farwolaeth ei fodryb, Margaret Evans, Cnwc-y-Gwili, Caerfyrddin.**

**Emyr Vaughan (B) ar farwolaeth ei briod, Nesta a oedd hefyd yn chwaer yng nghyfraith i Susan Fitzpatrick (B).**

**Trist gennym glywed am farwolaeth Nancy Scourfield (HA). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Anthony ei mab. Cynhelir ei hangladd ddydd Iau 7 Mai am 2.30 yn Amlosgfa Parc Gwyn. Bydd teyrnged iddi yn Y Ddolen nesaf.**

**Clywsom hefyd am golli Mair Loader (HA). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Meinir, Aled a'r teulu oll. Nid oedd trefniadau ar gyfer ei hangladd wedi dod i law wrth i'r papur fynd i'r wasg. Bydd teyrnged iddi yn y rhifyn nesaf o'r Ddolen.**

**Meddyliwn amdanoch oll yn eich colled a'ch hiraeth.**

**CYDYMDEIMLAD PELLACH**

**Gyda thristwch y clywsom am farw'r Parch. Dafydd H. Owen, Caerdydd a fu'n weinidog uchel ei barch yng Nghapel Bancyfelin ar un adeg ynghyd â Moreia, Llansteffan. Cydymdeimlwn yn fawr â Brenda, Rhys a Rhian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth a diolchwn am ei weinidogaeth da a ffyddlon.**

**Yn ddiweddar hefyd collwyd Beryl Eunice Jones, Bae Colwyn, priod y diweddar Barchedig John Lewis Jones, un o gyn weinidogion Elim, Ffynnon-ddrain (1972-9) a Philadelffia (1976-9). Estynnwn ein cydymdeimlad â'r merched Siân a Cathrin a'r teulu oll yn eu colled a'u hiraeth. Diolchwn am weinidogaeth werthfawr Beryl a'i gŵr dros flynyddoedd lawer.**

## DYLETSWYDDAU

## MAI



**BANCYFELIN**
Cadw’r mis:  Gwyneth Griffiths
Cyhoeddwr: Margaret Evans
Organydd: Trefina Jones
Blodau:
Mai 3: Roderick Evans
Mai 17 a 21: Gwyneth Griffiths
Ymwelwyr: Anne a Lyn Jones

**CANA**
Gofalwr y mis: Edward Jones
Cyhoeddwr: Marlene Jones
Organydd: Mair Jones
Blodau:
Mai 3: Ann Jones
Mai 13:  Marlene Jones
Mai 24: Carolyn Hancock
Mai 31 – Marlene Jones
Ymwelwyr: Marlene ac Edward Jones

**ELIM**
Cyhoeddwr: Brian Walters
Organydd: John Evans
Blodau:
Mai 3: Natalie Evans
Mai 17: Edna Morris
Gosod y Bwrdd Cymun:  Pat Davies
Ymwelwyr: Yr aelodau

**HEOL AWST**
Cyhoeddwr: Nigel George
Ymwelwyr:  Gweinidog
Cyfeilydd: Olga Williams
Dyletswyddau’r Sul: Joan Thomas a Roy James

**Y PRIORDY**
Gofalwr: Elis Jones
Cyhoeddwr: Emlyn Schiavone
Gosod y Bwrdd Cymun: Eirlys Davies a Margaret Lloyd Evans
Darllenwyr:
Mai 3- Ffion Vickridge
Mai 10 – Oedfa Deulu
Mai 17 - Tim Hayes
Mai 24- Philip Jones
Mai 31- Luned Voyle (Y Tabernacl)
Ymwelwyr: Mai / Mehefin:
Gwynfor a Janer Davies
Adrian a Gloria Evans
Dennis a Rhian Jones
Blodau:
Mai 3: Nia Lewis
Mai 10: Nia Lewis
Mai 17: June Thomas
Mai 24: June Thomas
Mai 31: Tabernacl

| **CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH** | | | |
|---|---|---|---|
| **BANCYFELIN** | **Nos Fawrth<br>30 Mehefin** | **7.30** | **Y Festri** |
| | | | |
| **CANA** | **Prynhawn Iau<br>11 Mehefin** | **1.30** | **Y Festri** |
| | | | |
| **ELIM** | **Bore Mercher<br>3 Mehefin** | **11.00** | **Y Capel** |
| | | | |
| **HEOL AWST** | **Prynhawn Mercher<br>3 Mehefin** | **2.00** | **Y Festri** |
| | | | |
| **Y PRIORDY** | **Nos Lun<br>1 Mehefin** | **7.00** | **Y Festri** |

# SULIADUR MAI 2026

| DYDDIAD | 10.00 | 11.30 | 1.30 | 3.00 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Mai 3** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim © (+HA)<br>Gweinidog | Cana©<br>Gweinidog | Bancyfelin ©<br>Gweinidog | |
| **Mai 10** | Priordy - Oedfa Deulu<br>Sul y Maer<br>Gweinidog | | Oedfa Bwnc<br>Gibeon<br>Gweinidog | Heol Awst ©<br>Cwrdd ½ blynyddol<br>Aled Gwyn a'n Gweinidog | |
| **Mai 13 (Mercher)** | | | | | Cana 7.00<br>Cwrdd Pregethu<br>Emyr Williams<br>Gweinidog |
| **Mai 17** | Priordy<br>Gweinidog | Elim (+HA)<br>Cymanfa Bwnc<br>Holwr: Alun Lenny<br>Gweinidog | Bancyfelin<br>Gweinidog | | |
| **Mai 21 (Iau)** | | | | | Bancyfelin 7.00<br>Cwrdd Pregethu<br>Rhys Locke<br>Gweinidog |
| **Mai 24 - Sulgwyn** | Priordy<br>Gweinidog | | Cana<br>Gweinidog | Heol Awst (+E)<br>Gweinidog | |
| **Mai 31** | Tabernacl (Undebol I'r dref)<br>10.00 Oedfa Gymorth<br>Cristnogol | | Cana (+ Bancyfelin)<br>Aelodau | | |
| **Mehefin 7** | Priordy©<br>Gweinidog | Elim © (+HA)<br>Gweinidog | Bancyfelin©<br>Gweinidog | | |

## Amserlen yr Ysgolion Sul - Mai 2026

| Cana | Y Priordy |
|---|---|
| 3 Mai: Ysgol Sul<br>10 Mai: Cymanfa Bwnc<br>17, 24,31 Mai: Dim Ysgol Sul<br><br>**Elim**<br><br>3 Mai: Ysgoll Sul<br>10 Mai: Ysgol Sul<br>17 Mai: Cymanfa Bwnc<br>24 Mai: Dim Ysgol Sul<br>7 Mehefin: Ysgol Sul | 3 Mai:Ysgol Sul<br>10 Mai: Oedfa Deulu Sul y Maer<br>17 Mai: Ysgol Sul a PIP<br>24 Mai: Dim Ysgol Sul<br>31: Dim Ysgol Sul<br>7 Mehefin: Ysgol Sul<br> |

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYDDIN**
**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau 14 Mai 2026**





**Capel Gibeon, Bancyfelin - SA33 5NP**
**Y Gynhadledd am 4.00 / Cyfarfod yr Hwyr am 7**

**Anerchiad yn yr hwyr gan**
**Y Parchedig Owain Llŷr Evans**
**Llywydd yr Undeb**

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgol Sul am y lluniau'r mis hwn



## ATEBION Y CWIS - MIS MAI

| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | cydwybod | 6 | blentyn |
| 2 | gant | 7 | ysgwydd |
| 3 | aeaf | 8 | sydd |
| 4 | cywiro | 9 | dŷ |
| 5 | wanwyn | 10 | fydd |

## Cyrddau Pregethu



### Cana

**Nos Fercher 13 Mai am 7.00**
**Pregethwr gwadd: Y Parch Emyn Williams, Meidrim**
Swper i ddilyn



### Bancyfelin

**Nos Iau, 21 Mai am 7.00**
**Pregethwr gwadd: Y Parchg Rhys Locke, Castell Nedd**
Swper i ddilyn



### Heol Awst

**Prynhawn Sul 10 Mai am 3.00**
**Pregethwr gwadd: Aled Gwyn**

*Croeso i bawb*

---

**DATHLU 300 MLWYDDIANT**
**CAPEL HEOL AWST, CAERFYRDDIN**

# TE Y DATHLU

**PRYNHAWN SUL 24 MAI 2026**

**AM**



**3.00 O'R GLOCH YN Y FESTRI**



CROESO I BAWB

---



**PANED A SGWRS**
**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**BORE MERCHER, 10 MEHEFIN 2026 – 10.30**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**Croeso cynnes i bawb**

